OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 169 (Cy. 28)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2012

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) 1999, ("Rheoliadau 1999") yn darparu ar gyfer cyfansoddiad Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ("y Cyngor"). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1999 o ganlyniad i Ddeddf Addysg 2011 ("Deddf 2011"), sy'n darparu ar gyfer diddymu Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr ac yn darparu mewn perthynas â gwahardd personau rhag cyflawni gwaith addysgu.

Diwygir rheoliad 5(2)(a) o Reoliadau 1999 i ddarparu ynghylch person sy'n destun gorchymyn gwahardd sydd wedi'i wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 141B o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002"). Mae'r diwygiad yn darparu ynghylch cymhwyster person o'r fath ar gyfer cael ei ethol yn aelod o'r Cyngor, ar gyfer cael ei benodi'n aelod o dan reoliadau 7, 8 neu 11, ac ar gyfer pleidleisio mewn etholiad am aelodau etholedig o dan gynllun sydd wedi'i wneud o dan reoliad 6. Mewnosodir adran 141B yn Neddf 2002 gan Ddeddf 2011.

Diwygir rheoliad 10(5)(a) o Reoliadau 1999 fel bod darpariaeth yn cael ei hychwanegu drwy'r hon y bydd aelod o'r Cyngor yn peidio â dal y swydd os bydd cyflogaeth y person hwnnw'n destun gorchymyn gwahardd sydd wedi'i wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 141B o Ddeddf 2002.

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 169 (Cy. 28)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2012

*Gwnaed* *20 Ionawr 2012*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *26 Ionawr 2012*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1(5) a (7) a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) a pharagraff 3 o Atodlen 1 iddi, ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn unol ag adran 42(9) o'r Ddeddf honno:

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2012.

(2) Daw’r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod y daw adran 8 o Ddeddf Addysg 2011(**3**) i rym.

---

(**1**) 1998 p. 30.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) 2011 p. 21.

**Diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) 1999**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) 1999(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5(2)(a), yn lle'r geiriau "the Education Act 2002 or the person is barred", rhodder "the Education Act 2002, the person is barred", ac ar ddiwedd y rheoliad ychwaneger y geiriau a ganlyn—

"or the person's employment as a teacher is prohibited under the terms of a prohibition order made by the Secretary of State under section 141B of the Education Act 2002.".

(3) Yn rheoliad 10(5)(a), yn lle'r geiriau "the Education Act 2002 or the person is barred", rhodder "the Education Act 2002, the person is barred", ac ar ddiwedd y rheoliad ychwaneger y geiriau a ganlyn—

"or the person's employment as a teacher is prohibited under the terms of a prohibition order made by the Secretary of State under section 141B of the Education Act 2002.".

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

20 Ionawr 2012

(**1**) O.S. 1999/1619 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1999/3185 (Cy. 43), O.S. 2003/389 (Cy. 51), O.S. 2005/3238 (Cy. 243), O.S. 2007/812 (Cy. 69), O.S. 2009/1352 (Cy. 128) ac O.S. 2010/1142 (Cy. 101).